Cyngor Sir CEREDIGION
ADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYMUNEDOL
J. Eifion Evans, B.Add.
Cyfarwyddwr
Director

CEREDIGION County Council
DEPARTMENT OF EDUCATION & COMMUNITY SERVICES

Canolfan Rheidol, Rhoddfa Padarn, Llanbadarn Fawr
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE

☎ 01970 633664
Fax 01970 633663

CAIS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM

Dylid cwblhau'r ffurflen hon gan y Rhiant/Gwarcheidwad Cyfreithiol sy'n hawlio Prydau am Ddim ar gyfer ei blentyn/plant, ac sy'n derbyn un o'r budd-daliadau canlynol

	YDW / NAC YDW
Ategiad Incwm	
Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Incwm	
Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth	
Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth sy'n Seiliedig ar Incwm (IR)	
Credyd Treth Plant ond nid Credyd Treth Gwaith a bod gennych incwm blynyddol, fel y'i hasesir gan Gyllid a Thollau EM, sydd ddim yn fwy na £16,190 **NODER: Os ydych yn derbyn Credyd Treth Gwaith, nid ydych yn gymwys.**	
Cymorth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999	

Os ydych, cyflwynwch brawf dogfennol (fel y nodir drosodd) a chwblhewch y ffurflen hon.

Enw'r ymgeisydd: _____ Perthynas i'r plentyn/plant: _____

Cyfeiriad llawn: _____ Côd Post: _____

_____

Rhif ffôn: _____ Rhif Ysw. Gwladol: | | | | | | | | | |

Dyddiad geni'r Ymgeisydd _____

Nodwch fanylion llawn bob plentyn sy'n ddibynnol arnoch ac sy'n cwrdd â'r meini prawf a restrir uchod

Enw(au) Llawn	Dyddiad Geni	Enw'r Ysgol	A yw pob plentyn yn byw gyda chi? **YDY/ NAC YDY**

Prawf Teilyngdod:

Derbynnir unrhyw un o'r tystiolaethau dogfennol canlynol fel prawf eich bod yn derbyn y budd-dal cymwys:

- llythyr diweddar oddi wrth y Ganolfan Byd Gwaith yn cadarnhau eich bod yn derbyn **Ategiad Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chefnogaeth sy'n Seiliedig ar Incwm (IR)** ar hyn o bryd

- hysbysiad o'ch hawl i **Gredyd Pensiwn M1000**

- hysbysiad llawn oddi wrth Gyllid y Wlad EM yn cadarnhau eich bod yn derbyn **Credyd Treth Plant a bod gennych incwm blynyddol sydd ddim yn fwy na £16,190** a'ch bod **DDIM yn teilyngu Credyd Treth Gwaith**

- tystiolaeth ddogfennol yn cadarnhau eich bod yn derbyn cymorth o dan **Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999**

Datganiad:

Cytunaf y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperais i brosesu fy nghais am brydau ysgol am ddim ac y byddwch yn cysylltu ag asiantaethau eraill (Canolfan Byd Gwaith, Adran Gwaith a Phensiynau, Cyllid y Wlad) yn unol â'r gyfraith i wirio fy nheilyngdod cychwynnol a chyfredol.

Deallaf y caiff canlyniadau unrhyw wiriad o gymhwyster i brydau ysgol am ddim eu defnyddio i asesu fy nheilyngdod i dderbyn grant gwisg ysgol ar gyfer disgybl Blwyddyn 7.

Datganaf fod y wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon yn osodiad cywir o'm hamgylchiadau a byddaf yn hysbysu'r Awdurdod **yn ddi-oed** o unrhyw newidiadau i fy amgylchiadau. Deallaf fod hawl gan Adran Addysg Ceredigion i gymryd camau addas os darganfyddir fy mod wedi camarwain yr Awdurdod ynglŷn â fy incwm neu fod fy sefyllfa wedi newid fel nad wyf bellach yn teilyngu Prydau Ysgol am Ddim.

Llofnod yr Ymgeisydd: _____ Dyddiad: _____

Os byddai'n well gennych dderbyn eich llythyr cadarnhad ac unrhyw ohebiaeth ynglŷn â Phrydau Ysgol am Ddim drwy e-bost, nodwch eich cyfeiriad e-bost isod:

Cyfeiriad E-bost: _____

Dylid anfon y ffurflen gais hon, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol berthnasol, at:

Yr Uned Ddata
Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol
Canolfan Rheidol,
Rhoddfa Padarn,
Llanbadarn Fawr,
ABERYSTWYTH
Ceredigion, SY23 3UE

Dychwelir eich holl dystiolaeth ddogfennol atoch yn syth.